

Grŵp Trawsbleidiol ar Fwyd Cofnodion y cyfarfod Mehefin 19 2019

Yn bresennol:

Jenny Rathbone AC	Cadeirydd
Mike Hedges AC	Gorllewin Abertawe
Euan	Swyddfa Rhun ap Iorwerth
Paul Griffiths	Pennaeth Caffael, Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol
Kristy Roberts-Medcraft	Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol
Rhys James	CBS Caerffili
Ian Evans	CBS Caerffili
Romano Provini	Gwasanaethau Caffael Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru
Katie Palmer	Synnwyr Bwyd Cymru
Pearl Costello	Bwyd Caerdydd
Judith Gregory	Arlwyo Addysg, Cyngor Caerdydd
Louise Shute	Food For Life Get Togethers
David Morris	Is-adran Bwyd Llywodraeth Cymru
Gemma Roberts	Swyddog Materion Cyhoeddus, Cancer Research UK
Shea Buckland-Jones	WWF Cymru
Jane Powell	Manifesto Bwyd Cymru
Holly Tomlinson	Cynghrair Gweithwyr Tir Cymru
Joanne Jefford	Deietegydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Hannah Caswell	Y Gymdeithas Pridd, Food for Life Served Here

Dosbarthwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol ar Fawrth 13 2019 ymlaen llaw. Ni chodwyd unrhyw faterion.

Caffael Cyhoeddus

Disgrifiodd Paul Griffiths, Pennaeth Caffael, a Kristy Roberts Medcraft o'r GCC eu rôl a'r newidiadau a wnaed i broses gaffael gyhoeddus y Llywodraeth er mwyn cynyddu pryniant nwyddau o Gymru. Mae cyrff cyhoeddus yn gwario £35m ar brynu bwyd bob blwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o fwyd ffres yn cael ei gyflenwi gan gwmnïau o Gymru sy'n werth £6.3m o gyfanswm o £6.6m a gaiff ei wario bob blwyddyn.

Mae **Safonau Diogelwch Bwyd** yn flaenoriaeth uchel o ystyried y grwpiau risg uchel/bregus (plant, yr henoed, a chleifion mewnol ysbytai) sy'n cael bwyd yn y sector cyhoeddus; felly mae diogelwch bwyd a'r gallu i nodi'n union ble mae bwyd wedi'i gyrchu yn allweddol i gaffael cyhoeddus.

Dywedodd Katie Palmer bodd adroddiad diweddaraf y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. <https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2019/06/Ensuring-food-safety-and-standards.pdf> yn pwysleisio y risgiau posibl.

I Caerffili, mae diogelwch bwyd yn hollbwysig, yn enwedig o ystyried y digwyddiad trasig yn 2005 o ganlyniad i E-coli. Maent yn defnyddio archwilydd annibynnol i fonitro safonau diogelwch a chysylltu'n agos â swyddogion iechyd yr amgylchedd.

Astudiaeth Achos Cyngor Caerffili

Amlinellodd Ian Evans a Rhys James yr hyn y mae Cyngor Caerffili yn ei wneud i gaffael mwy o fwyd gan fusnesau lleol. Maent wedi cynnal digwyddiadau rhanddeiliaid i egluro'r broses gaffael i fusnesau lleol, sy'n cynnwys y safonau sy'n ofynnol ymhlith gofynion eraill. Maent yn darparu cyngor wedi'i deilwra i helpu busnesau i fidio yn llwyddiannus am gyfleoedd contract.

Roedd angen contract cig ffres ar gyfer prydau ysgol i ddarparu ffynhonnell leol.

Roeddynt yn cydnabod mai ychydig o gwmnïau fyddai'n gallu bidio i gyflenwi cynnyrch i bob ysgol yn y lle cyntaf, felly fe wnaethant rannu'r contract yn lotiau i ddechrau.

Fe wnaethant weithio'n llwyddiannus gyda dyn llaeth lleol a ddechreuodd trwy gyflenwi cwpl o ysgolion ac yna cynyddu ei allbwn yn raddol i ymgymryd â chontractau mwy. Mae ei fusnes bellach yn cyflenwi llaeth i 5 awdurdod lleol a bwrdd iechyd.

Mae BGC Caerffili wedi nodi bod cynyddu nifer y cyflenwyr lleol ar gyfer nwyddau a brynir gan y sector cyhoeddus yn flaenoriaeth.

Gweithredu: Beth mae byrddau gwasanaeth cyhoeddus eraill yn ei wneud i gynyddu nifer y cynhyrchwyr lleol sy'n cyflenwi bwyd i'r sector cyhoeddus?

Mae CLILC wedi cynhyrchu papur briffio o'r enw 'Dyfodol Caffael Cydweithredol Llywodraeth Leol yng Nghymru, Buddsoddi mewn Caffael Llywodraeth Leol i Gyflawni Cenedlaethau'r Dyfodol'.

Ddwy flynedd yn ôl, cynhaliodd y GCC weithgaredd i sicrhau bod darparwyr bwyd lleol yn ymwybodol o'r cyfleoedd caffael a'r hyn yr oedd angen iddynt ei wneud. Roedd 12 o ddigwyddiadau Cwrdd â'r Prynwyr cyn caffael gyda darpar gyflenwyr a oedd yn disgrifio'r holl broses gaffael, o amcanion i broses.

Paul Griffiths: Er y bu llwyddiannau, roedd maint y pecyn tendro a dod â llawer o feysydd cyflenwi bwyd ynghyd yn rhwystro rhai rhag bidio.

Dywedodd Ian Evans fod Caerffili newydd gynnal ei 2000fed clinig caffael.

Cafwyd trafodaeth am y **diffiniad o gyflenwyr o Gymru**. A yw hynny'n golygu wedi eu lleoli yng Nghymru neu gynnyrch wedi ei gynhyrchu yng Nghymru? Mae Castell Howell yn gyflenwr mawr o Gymru ond dim ond 18% o'u cynhyrchion sy'n dod yn gyfan gwbl o Gymru. Mae Castell Howell yn cyflenwi cynnyrch ffres ac amgylchynol ac mae'n rhaid iddo ddarparu ar gyfer galw eang ar draws ei gwsmeriaid, yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus.

Sut allwn ni gynyddu cynnwys Cymru?

Nid yw Cymru yn cynhyrchu unllle'n agos i ddigon o arddwriaeth i ateb y galw. Os bydd Brexit dim bargaen, mae ysgolion yn bwriadu defnyddio llyisiau a ffrwythau tun a rhewedig yn absenoldeb cynnyrch ffres o gyfandir Ewrop. Mae prinder cyflenwyr wedi cyfyngu ffocws caffael y GIG ar fwyd iach.

Mae angen dull newid cyfan a throsglwyddo gwybodaeth yn effeithiol

- Nid yw Cynllun Taliadau Sylfaenol yr UE ar gael i bobl sy'n cynhyrchu ar lai na 5 hectar
- Oedran cyfartalog ffermwyr yw 60 oed felly mae angen edrych tuag at newydd-ddyfodiaid i fusnesau bwyd
- Roedd gormod o bobl ar gwrs hyfforddi yn Eryri ond nid oes ganddynt lawer o fynediad i dir.
- Mae angen cael gwared ar gyfyngiadau cynllunio a datblygu lotiau bach.
- Mae Sir Gaerfyrddin wedi'i nodi fel awdurdod lleol sy'n canolbwyntio ar y mater.
- Mae Cronfa Her Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru yn cynnig cyllid o hyd at £100,000. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw Gorffennaf 12.

Cael pobl ifanc i ganolbwyntio ar fwyd go iawn

Defnyddiwyd Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol i ysbrydoli gyrfaeodd Blasus i frwydro yn erbyn delwedd wael y sector garddwriaethol ymhlith pobl ifanc.

Mynychodd y Prif Weinidog Iansiad Cymru yr ymholiad bwyd Plant yn y dyfodol <https://foodfoundation.org.uk/the-childrens-future-food-inquiry-final-report-is-here/> ym mis Mai 2019. Mae'n tynnu sylw at faint yr her i sicrhau bod pob plentyn yn gallu bwyta bwyd ffres. Amcangyfrifir bod 55,000 o ddisgyblion yn llwglyd nad ydyn nhw'n gymwys i gael PYD ar hyn o bryd gan fod eu rhieni'n gweithio. Mae cost bagiau bwyd o fagiau co-op Bwyd wedi codi 25%. Mae llawer sy'n ceisio cymorth mewn gwaith gan nad yw cyflogau wedi dal i fyny gyda'r cynnydd ym mhrisiau bwyd.

O'r 100 ysgol gynradd yng Nghaerdydd, mae 25 yn caniatáu i'w disgyblion archebu eu prydau ymlaen llaw wrth gofrestru yn y bore. Mae hyn yn lleihau gwastraff ac yn rhoi mwy o sicrwydd i ddisgyblion y byddant yn cael yr hyn a archebwyd ganddynt.

Gweithredu: Cytunwyd bod angen gwneud llawer mwy o waith i gynyddu nifer y cyflenwyr Cymreig lleol a rhanbarthol sy'n gallu bidio am gontractau cyhoeddus.

Daeth y cyfarfod i ben am 1:20pm. Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w gyhoeddi unwaith y bydd y prif siaradwr wedi'i nodi.